ATODLEN 4 — Rheoliad 2(4)

Safonau Cadw Cofnodion

# RHAN 1

## Y SAFONAU

| | |
|---|---|
| **1** | **Safonau ynghylch cadw cofnodion gan gorff** |
| **Safon 140:** | Rhaid ichi gadw cofnod, mewn perthynas â phob blwyddyn ariannol, o nifer y cwynion yr ydych yn eu cael sy'n ymwneud â'ch cydymffurfedd â'r safonau. |
| **Safon 141:** | Rhaid ichi gadw copi o unrhyw gŵyn ysgrifenedig yr ydych yn ei chael sy'n ymwneud â'ch cydymffurfedd â'r safonau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy. |
| **Safon 142:** | Rhaid ichi gadw copi o unrhyw gŵyn ysgrifenedig yr ydych yn ei chael sy'n ymwneud â'r Gymraeg (pa un a yw'r gŵyn yn ymwneud â'r safonau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy ai peidio). |
| **Safon 143:** | Rhaid ichi gadw cofnod o'r camau yr ydych wedi eu cymryd i sicrhau y cydymffurfir â'r safonau llunio polisi yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy. |
| **Safon 144:** | Rhaid ichi gadw cofnod (yn dilyn asesiadau o sgiliau iaith Gymraeg eich cyflogeion a wnaed gennych yn unol â safon 121), o nifer y cyflogeion sy'n meddu ar sgiliau yn y Gymraeg ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol a, phan fo hynny'n wybyddus ichi, rhaid ichi gadw cofnod o lefel sgiliau'r cyflogeion hynny. |
| **Safon 145:** | Rhaid ichi gadw cofnod, ar gyfer pob blwyddyn ariannol, o—<br>(a) nifer yr aelodau o staff a fynychodd gyrsiau hyfforddi a ddarparwyd yn Gymraeg (yn unol â safon 122), a<br>(b) os darparwyd fersiwn Gymraeg o gwrs yn unol â safon 122, y ganran o gyfanswm nifer y staff a fynychodd y fersiwn honno o'r cwrs. |
| **Safon 146:** | Rhaid ichi gadw cofnod o nifer yr aelodau o staff sy'n gwisgo bathodyn (a roddir ar gael iddynt yn unol â safon 130) ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol. |
| **Safon 147:** | Rhaid ichi gadw cofnod o bob asesiad a gynhaliwch (yn unol â safon 131) mewn cysylltiad â'r sgiliau Cymraeg y gallai fod eu hangen mewn perthynas â swydd newydd neu swydd wag. |
| **Safon 148:** | Rhaid ichi gadw cofnod, mewn perthynas â phob blwyddyn ariannol, o nifer y swyddi newydd a'r swyddi gwag a gategoreiddiwyd (yn unol â safon 131) fel swyddi sy'n gofyn—<br>(a) bod sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol;<br>(b) bod angen dysgu sgiliau yn y Gymraeg unwaith y penodir rhywun i'r swydd;<br>(c) bod sgiliau yn y Gymraeg yn ddymunol; neu<br>(ch) nad oedd sgiliau yn y Gymraeg yn angenrheidiol. |

# RHAN 2

## DEHONGLI'R SAFONAU

| | |
|---|---|
| **2** | Rhaid dehongli'r safonau a bennir yn Rhan 1 o'r Atodlen hon fel a ganlyn. |
| **3** | At ddibenion safonau 140, 144, 145, 146 a 148, ystyr "blwyddyn ariannol" yw blwyddyn ariannol y corff ei hun. |